WISERD

Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru
Wales Institute of Social and Economic Research and Data

**Crynodeb Sefydliad Materion Cymreig o sesiwn gyfansoddiadol ar gyfer Cynhadledd Flynyddol WISERD 2023: 12.15-12.45pm ar 28 Mehefin**

**Edrych ar ddewisiadau cyfansoddiadol Cymru ar gyfer y dyfodol**

Cynhelir y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, a sefydlwyd fel rhan o Gytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, o ddiwedd 2021 tan fis Rhagfyr 2023. Caiff y Comisiwn ei gyd-gadeirio gan Dr Rowan Williams, cyn Archesgob Caergaint, a'r Athro Laura McAllister o Ganolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n cynnwys naw Comisiynydd o bob rhan o gymdeithas sifil a phleidiau gwleidyddol. Bydd y Comisiwn yn datblygu dewisiadau ar gyfer diwygiad sylfaenol o strwythurau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig y mae Cymru yn parhau i fod yn rhan annatod ohonynt a bydd hefyd yn ystyried yr holl ddewisiadau blaengar i gryfhau democratiaeth Cymru.

Bydd Auriol Miller, Cyfarwyddwr y Sefydliad Materion Cymreig (IWA) ac aelod o'r Panel Arbenigol sy'n cefnogi'r Comisiwn, yn trafod gwaith y Comisiwn hyd yma, gan gynnwys yr adroddiad interim a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022, a'r broses a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. Bydd hefyd yn nodi'r hyn y mae'r Sefydliad Materion Cymreig yn ei wneud, ar wahân, i archwilio'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Comisiwn fel rhan o broject a ariennir gan The Legal Education Foundation ac yn gwahodd cyfraniadau.